Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Dinas Casnewydd

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4201A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Crynodeb o'r adroddiad 4

Argymhellion 4

Adroddiad manwl

Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn 7

Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn 7

Yr hyn a ganfuom: Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n hyblyg o ran sut y mae'n defnyddio adnoddau i roi cymorth i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor ond ceir cyfleoedd i gryfhau'r modd y cynllunnir y gwasanaeth ac ansawdd data 8

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant ac yn adolygu ac yn defnyddio ei adnoddau i alluogi hyn i ddigwydd 8

Ceir diwylliant cadarnhaol a chefnogol o fewn y Gwasanaeth Cynllunio, ond ceir bylchau yn ei drefniadau ar gyfer cynllunio'r gwasanaeth, ac nid yw'n manteisio i'r eithaf ar ymarferoldeb ei system TG 9

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n gweithredu i wella ei berfformiad, ond bu achosion o adrodd yn anghywir ar berfformiad sy'n codi pryderon ynghylch cywirdeb data 11

Er bod peth gweithgarwch i adrodd ar berfformiad y Gwasanaeth Cynllunio, mae'r gwasanaeth wedi adnabod cyfleoedd i wella'i drefniadau adrodd ar berfformiad 16

Mae Aelodau'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau; fodd bynnag, ceir anghysonderau rhwng Cod Ymarfer y Pwyllgor Cynllunio a chyfansoddiad y Cyngor a cheir rhai bylchau yng ngweithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio 17

Atodiadau

Atodiad 1 – Cwestiynau'r archwiliad a'r meini prawf archwilio 19

# Crynodeb o’r adroddiad

## Adroddiad cryno

**Arddangosyn 1: crynodeb o’r adroddiad**

Mae’r arddangosyn isod yn crynhoi’r rheswm y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn, ein canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer y Cyngor.

**Pam fod y Gwasanaeth Cynllunio’n bwysig.**

1 Mae’r Gwasanaeth Cynllunio gan gynnwys gorfodaeth a’r tîm Polisi Cynllunio’n wasanaethau allweddol i Gyngor. Mae’r Gwasanaeth Cynllunio’n rheoli datblygiad a defnydd tir er budd y cyhoedd. Mae’n cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rhaid i’r Gwasanaeth Cynllunio gysoni anghenion datblygu a chadwraeth, gan sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac amwynder o ran defnydd tir, gan felly sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli’n gynaliadwy a bod yr amgylchedd adeiledig a hanesyddol yn cael ei warchod, ei hyrwyddo, ei gadw a’i wella.

**Ffocws ein harchwiliad**

2 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae’r Gwasanaeth Cynllunio’n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant; y trefniadau yn y Gwasanaeth Cynllunio i roi cymorth i gyflawni ei amcanion; pa un a oes rolau a chyfrifoldebau wedi’u diffinio’n glir yn y Gwasanaeth Cynllunio, gan gynnwys y Pwyllgor Cynllunio, ac ymlyniad wrthynt; a sut y mae’r Gwasanaeth Cynllunio’n adolygu ac yn monitro effeithiolrwydd ei drefniadau.

3 Fe wnaeth yr archwiliad hwn adolygu perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio hefyd.

4 Ni wnaeth yr archwiliad hwn adolygu penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio unigol.

**Ein canfyddiadau allweddol**

5 Canfuom fod y Gwasanaeth Cynllunio’n hyblyg o ran sut y mae’n defnyddio adnoddau i roi cymorth i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor ond bod cyfleoedd i gryfhau’r modd y cynllunnir y gwasanaeth ac ansawdd data.

**Ein hargymhellion i’r Cyngor**

**Cynllunio’r Gwasanaeth**

A1 Dylai’r Gwasanaeth Cynllunio gryfhau ei drefniadau ar gyfer cynllunio’r gwasanaeth i adlewyrchu ehangder gweithgarwch y gwasanaeth a’i gyfraniad

i'r Cyngor. Byddai hyn yn ei helpu i ddangos ei werth i'r Cyngor yn well ac yn darparu ffocws clir ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaeth yn y dyfodol. Byddai hefyd yn helpu'r Cyngor i fonitro perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio ac yn hwyluso mwy o atebolrwydd am berfformiad.

**Adrodd ar berfformiad**

A2 Dylai'r Gwasanaeth Cynllunio wella'r modd y mae'n adrodd ar berfformiad trwy:

- adfer ei adroddiad blynyddol ar berfformiad cynllunio fel a fwriedir i alluogi aelodau a'r cyhoedd i gael dealltwriaeth well a mwy trylwyr am berfformiad y gwasanaeth; ac
- ailstrwythuro'i adroddiad blynyddol Adran 106 fel a fwriedir i alluogi aelodau a'r cyhoedd i gael dealltwriaeth well a mwy trylwyr am y modd y dyrennir arian Adran 106 ar draws y Cyngor a'r ddinas.

**Ansawdd Data**

A3 Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau ansawdd data cadarn i sicrhau ei fod yn adrodd ar ddata cywir am berfformiad fel bod staff, aelodau, Llywodraeth Cymru, a'r cyhoedd yn gallu dibynnu ar gywirdeb y data.

**System TG y Gwasanaeth Cynllunio**

A4 Mae angen i'r Cyngor wella hyfforddiant i staff ar system TG y Gwasanaeth Cynllunio i sicrhau defnydd llawn o ymarferoldeb y system, i wella'r modd y cofnodir ac yr adroddir ar ddata am berfformiad ac i wella effeithlonrwydd.

**Trefniadau llywodraethu**

A5 Dylai'r Cyngor gryfhau trefniadau llywodraethu ei Wasanaeth Cynllunio trwy:

- sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio a nodir yng Nghod Ymarfer y Pwyllgor Cynllunio'n cyd-fynd â'r trefniadau a nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor;
- adolygu'r cydbwysedd o ran yr amser sydd gan aelodau o wardiau lleol i siarad ar geisiadau cynllunio yng nghyfarfodydd y pwyllgor o'i gymharu ag ymgeiswyr a gwrthwynebwyr;
- egluro rôl a hawliau pleidleisio aelod o'r Pwyllgor Cynllunio wrth annerch y Pwyllgor yn eu cymhwyster fel Aelod o Ward Leol sydd wedi galw cais cynllunio i mewn i gael ei ystyried gan y pwyllgor, i leihau'r risg o wrthdaro buddiannau neu ragderfynu; a

- darparu hyfforddiant ar weithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio a throsolwg ar faterion cynllunio ar gyfer yr holl Aelodau.

# Adroddiad manwl

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno a pham – cwmpas yr archwiliad hwn

1 Ein hamcan ar gyfer yr archwiliad hwn oedd cael sicrwydd pa un a oes gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau priodol i gyflawni gwerth am arian o ran defnyddio ei adnoddau.

2 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau, arsylwi ar gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a chyfweliadau ag aelodau etholedig a swyddogion. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i oleuo ein canfyddiadau'n gyfyngedig i'r ffynonellau hyn.

3 Roeddem yn ceisio ateb y cwestiwn 'A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau priodol i gyflawni gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?'

4 Fe wnaethom hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Gwasanaeth Cynllunio'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei Amcanion Llesiant?
- A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau i gyflawni ei amcanion?
- A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir yr ymlynir wrthynt?
- A yw'r Gwasanaeth Cynllunio'n adolygu ac yn monitro effeithiolrwydd ei drefniadau?

5 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr oeddem yn ceisio eu hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

6 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn ym mis Chwefror 2024.

## Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn

7 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Yr hyn a ganfuom: Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n hyblyg o ran sut y mae'n defnyddio adnoddau i roi cymorth i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor ond ceir cyfleoedd i gryfhau'r modd y cynllunnir y gwasanaeth ac ansawdd data

## Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant ac yn adolygu ac yn defnyddio ei adnoddau i alluogi hyn i ddigwydd

8 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n un o'r galluogwyr allweddol o ran cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio bresenoldeb ar grwpiau nifer o brosiectau a rhaglenni pwysig y Cyngor. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Grŵp Strategaeth a Rheoli Asedau (SAMG), y Grŵp Gorfodi ar Eiddo Gwag, a'r Grŵp Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae cynnwys y gwasanaeth yn y grwpiau hyn yn golygu bod y Cyngor yn cael cyngor cynllunio proffesiynol ar yr adeg briodol cyn dyrannu adnoddau a allai fod yn sylweddol ar ddatblygiadau mawr nad ydynt o bosibl yn cyd-fynd â pholisïau cynllunio perthnasol.

9 Er bod y Gwasanaeth Cynllunio'n rhoi cymorth i gyflawni'r blaenoriaethau strategol Corfforaethol, yn weithredol ceir lefelau gwahanol o ymwybyddiaeth ar draws gwasanaethau'r Cyngor am y rôl a'r cymorth a ddarperir gan y Gwasanaeth Cynllunio. Efallai na fydd rhai gwasanaethau wastad yn ceisio cyngor cynllunio proffesiynol ar adeg datblygu prosiectau. Gallai hyn arwain at ddefnydd aneffeithlon o adnoddau'r Cyngor i ddatblygu prosiectau nad ydynt o bosibl yn cyd-fynd â pholisïau Cynllunio perthnasol, ac arwain at oedi.

10 Ar adeg ein hadolygiad, roedd y tîm Polisi Cynllunio'n gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol newydd (CDLIN) gan fwriadu cyflwyno hwn i'r Cyngor llawn i gael ei fabwysiadu erbyn gwanwyn 2026. Mae cynhyrchu CDLIN yn mynd â llawer o amser ac yn gostus. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi cynllunio ar gyfer yr angen am adnoddau ychwanegol wrth ddatblygu hwn. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn ddarbodus gyda'i ddull hanesyddol o reoli'r gyllideb gan symud tanwariannau yn y gyllideb i gronfa wrth gefn bwrpasol. Mae'r gwasanaeth bellach yn defnyddio'r gronfa wrth gefn hon i ariannu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â datblygu ei CDLIN. Mae'r dull tymor canolig hwn o reoli'r gyllideb yn dangos agwedd ddarbodus gan y gwasanaeth tuag at gynllunio ariannol ar gyfer y dyfodol.

11 Mae'r gwasanaeth hefyd wedi defnyddio ei adnoddau mewn modd hyblyg i fynd i'r afael â materion a oedd yn dod i'r amlwg mewn meysydd eraill. Yn 2023, fe greodd y Gwasanaeth Cynllunio rôl newydd o fewn gorfodaeth gynllunio (uwch swyddog gorfodi strategol) i ymdrin yn benodol â materion strategol bwysig i'r Cyngor. Mae'r rôl hon yn canolbwyntio'n bennaf ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ac eiddo gwag neu adfeiliedig yng Nghasnewydd y mae angen ffocws ac ymrwymiad gorfodaeth

gynllunio i ymdrin â hwy. Fe wnaeth y gwasanaeth ail-alinio ei adnoddau i adlewyrchu'r blaenoriaethau corfforaethol hyn a neilltuo amser swyddog pwrpasol i ymdrin â hwy.

12 Ar adeg ein hadolygiad, roedd gan y gwasanaeth swydd wag ar gyfer swyddog gorfodi. Roedd y rôl hon wedi bod yn wag am sawl mis ac roedd y Gwasanaeth Cynllunio wedi bod yn aflwyddiannus wrth geisio'i llenwi. Fe gynigiodd y Cyngor gael gwared ar y rôl orfodi o'i strwythur a chreu rôl Myfyriwr Cynllunio ychwanegol gyda ffocws ar orfodaeth. Mae'r ymagwedd hon yn dangos hyblygrwydd o ran sut orau i ddefnyddio adnoddau'r Cyngor. Mae'n ymagwedd a allai greu datrysiad mwy cynaliadwy, bod o gymorth gyda chynllunio ar gyfer olyniaeth a gwella gwerth am arian o ran defnyddio ei adnoddau.

13 Mae'r Cyngor yn deall pwysigrwydd bod â swyddog pwrpasol sy'n gyfrifol am oruchwylio arian A106[1] sy'n dod i mewn i'r Cyngor. Mae gan y Cyngor Reolwr Cyfraniadau Cynllunio sy'n gyfrifol am reoli, monitro ac adrodd ar swm yr arian A106 a gafwyd. Mae hyn yn cynnwys arian a ddyrennir i gymunedau lleol a gwasanaethau eraill yn y Cyngor. Yn dilyn adolygiad o adroddiadau A106 a dysgu oddi wrth Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) eraill, mae'r gwasanaeth yn bwriadu newid cynnwys a strwythur ei adroddiad blynyddol ei hun. Dylai hyn ddarparu rhagor o fanylion ble y dyrennir arian A106 ledled y ddinas. Byddai cyflwyno gwybodaeth fanylach am sut y mae cyllid A106 o fudd i'r Cyngor a chymunedau'n dangos yn well beth yw effaith a gwerth am arian y rôl hon.

## Ceir diwylliant cadarnhaol a chefnogol o fewn y Gwasanaeth Cynllunio, ond ceir bylchau yn ei drefniadau ar gyfer cynllunio'r gwasanaeth, ac nid yw'n manteisio i'r eithaf ar ymarferoldeb ei system TG

14 Mae swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio'n cael eu hysgogi gan awydd i sicrhau perfformiad da ac yn canolbwyntio ar gyflawni yn erbyn y dangosyddion perfformiad cenedlaethol a bennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ACLlau. Mae gan swyddogion amcanion unigol gyda thargedau perfformiad lle y bo'n berthnasol. Mae hyn yn rhoi ffocws i bob aelod o staff ac yn sicrhau y gellir eu dwyn i gyfrif.

15 Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol y Cyngor yn nodi'n glir y bydd gan bob Pennaeth Gwasanaeth gynllun gwasanaeth. Fodd bynnag, mae gan bob gwasanaeth ryddid i benderfynu a oes gofyniad am gynllun gweithredu neu gynllun tîm.

16 Mae'r cynllun gwasanaeth Adfywio a Datblygu Economaidd yn cyd-fynd yn agos â Chynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn cynnwys amcan penodol ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio. Fodd bynnag, nid yw'r amcan, y pum cam gweithredu

[1] Contract preifat sy'n rhwymo mewn cyfraith rhwng datblygwr (neu nifer o bartïon â buddiant) ac Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) sy'n gweithredu ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio statudol yw cytundeb Adran 106 (A106).

ategol allweddol a’r tri mesur perfformiad ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio’n cwmpasu ehangder cyfraniadau’r Gwasanaeth Cynllunio i’r Cyngor a’r cyhoedd.

17 Nid oes gan y Gwasanaeth Cynllunio Gynllun Tîm felly ceir bwlch rhwng y cynllun gwasanaeth Adfywio a Datblygu Economaidd ac amcanion a thargedau perfformiad swyddogion unigol. Nid yw’r Gwasanaeth Cynllunio wedi mynegi ei heriau a blaenoriaethau allweddol nac wedi adnabod risgiau a chamau lliniarol. Er enghraifft, nid yw’r Gwasanaeth Cynllunio wedi bod â chapasiti llawn a bu anawsterau gyda'i system TG, ond nid yw’r materion hyn a chamau gweithredu i ymdrin â hwy wedi cael eu cofnodi i helpu i fonitro eu heffaith a’r cynnydd o ran ymdrin â hwy. Gallai Cynllun Tîm neu ddogfen gyfatebol ddangos gwerth y gwasanaeth i’r Cyngor a nodi ei flaengynllun, gan ddarparu strwythur ar gyfer adrodd ar berfformiad a’i fonitro.

18 Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau da i’r pedwar tîm unigol a rheolwyr o fewn y gwasanaeth gwrdd yn rheolaidd. Mae timau unigol yn cwrdd bob dwy neu dair wythnos, gyda thimau Rheoli Datblygu’r Dwyrain a’r Gorllewin yn cwrdd ar y cyd bob tair wythnos. Mae swyddogion fel rheol yn teimlo’u bod yn cael eu cefnogi’n dda a’u bod wedi’u cysylltu’n dda â’u cydweithwyr yn eu priod dimau.

19 Ceir diwylliant cadarnhaol i ymdrin ag unrhyw wahaniaethau barn wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Yn gadarnhaol, nid yw swyddogion yn teimlo dan bwysau i benderfynu neu argymell canlyniad penodol ar gyfer ceisiadau cynllunio. Mae swyddogion unigol yn drafftio argymhellion ar gyfer pob cais cynllunio. Mae’r Rheolwyr Cynllunio’n cwrdd yn wythnosol i drafod yr argymhellion ac i benderfynu pob cais cynllunio. Os oes gan y Rheolwyr Cynllunio farn broffesiynol wahanol i’r swyddog sy’n cyflwyno’r argymhelliad, bydd y rheolwr yn trafod y rhesymau dros eu safbwynt gwahanol gyda’r swyddog. Mae’r cyfathrebu hwn yn sicrhau bod pawb yn fodlon yn broffesiynol ar y penderfyniad cynllunio terfynol neu’r argymhelliad i’r Pwyllgor Cynllunio.

20 Mae swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio’n teimlo’u bod yn cael eu cefnogi’n dda ac yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau’n glir. Mae gan y gwasanaeth Adfywio a Datblygu Economaidd gyllideb hyfforddi staff ac mae swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio wedi cael budd o’r gyllideb hon ac yn teimlo’u bod yn cael eu cefnogi o ran eu gweithgarwch dysgu a datblygu.

21 Mae’r Gwasanaeth Cynllunio’n cael ei gefnogi’n dda gan wasanaeth cyfreithiol y Cyngor ac mae’r Cyngor yn cyflogi Uwch Gyfreithiwr ag arbenigedd ym maes Cynllunio. Fodd bynnag, mae’r gwasanaeth cyfreithiol dan bwysau staffio, ac fe allai hyn ddwyn goblygiadau yn y dyfodol ar gyfer y cymorth sydd ar gael i’r Gwasanaeth Cynllunio.


22 Er gwaethaf diwylliannau gweithio cadarnhaol, ceir rhwystredigaeth barhaus gyda system TG y Gwasanaeth Cynllunio. Fe gyflwynodd y gwasanaeth system TG newydd yn 2020, yn union cyn y pandemig, a hynny heb sefydlu pecyn hyfforddi cynhwysfawr. Nid yw aelodau newydd o staff wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol ar y system a’i hymarferoldeb. O ganlyniad, ar adeg ein hadolygiad ni, nid oedd swyddogion yn defnyddio’r system hyd eithaf ei chapasiti. Fe achosodd hyn i swyddogion sefydlu eu taenlenni Excel eu hunain i fonitro gwaith ac adrodd arno,

ac nid yw hyn yn ddefnydd effeithlon o amser swyddogion. Byddai'r system TG hanfodol hon yn fwy buddiol i swyddogion ac yn fwy gwerthfawr yn ymarferol ac ariannol pe bai staff yn cael cymorth i fanteisio i'r eithaf ar ei photensial.

## Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n gweithredu i wella ei berfformiad, ond bu achosion o adrodd yn anghywir ar berfformiad sy'n codi pryderon ynghylch cywirdeb data

23 Ceir nifer o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer cynllunio y mae ACLlau yn adrodd arnynt yn chwarterol wrth Lywodraeth Cymru. Rydym wedi adolygu ffurflenni chwarterol y Gwasanaeth Cynllunio ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Rhagfyr 2023 a data ar berfformiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Medi 2023. Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data ar berfformiad ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2023.

**Arddangosyn 2: amser cyfartalog i benderfynu pob cais cynllunio mewn diwrnodau**





Ffynhonnell: Ffurflenni Chwarterol Rheoli Datblygu Cyngor Dinas Casnewydd i Lywodraeth Cymru, ac Arolygon chwarterol rheoli datblygu (llyw.cymru)

24 Fel y dengys **Arddangosyn 2**, rhwng Chwarter 1 2022-23 a Chwarter 4 2022-23, roedd perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio'n gyson islaw cyfartaledd Cymru ar gyfer yr amser cyfartalog mewn diwrnodau a gymerodd i benderfynu ceisiadau

cynllunio. Yn Chwarter 1 2023-24, fe wellodd perfformiad y Cyngor, er ei fod wedi aros islaw cyfartaledd Cymru. Yn Chwarter 2 2023-24 fe wellodd perfformiad y Cyngor yn sylweddol nes ei fod uwchlaw cyfartaledd Cymru.

25 Mae materion staffio sylweddol yn y Gwasanaeth Cynllunio wedi effeithio ar ei berfformiad o ran amseroldeb penderfynu ceisiadau cynllunio. Mae recriwtio Myfyrwyr Cynllunio yn 2023 yn ffactor cadarnhaol sydd wedi cyfrannu at wella perfformiad. Mae recriwtio Rheolwr Datblygu a Chynllunio newydd tuag at ddiwedd 2022 yn darparu sefydlogrwydd rheoli. Mae'r Cyngor wedi dynodi, serch hynny, bod cynnal y perfformiad gwell diweddar yn ddibynnol ar lwyddo i recriwtio Myfyrwyr Cynllunio newydd yn flynyddol a gallu cadw staff cyfredol.

**Arddangosyn 3: Canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn graddfeydd amser statudol a chytunedig**





Ffynhonnell: Ffurflenni Chwarterol Rheoli Datblygu Cyngor Dinas Casnewydd i Lywodraeth Cymru, ac Arolygon chwarterol rheoli datblygu (llyw.cymru)

26 Fel y dengys **Arddangosyn 3**, rhwng Chwarter 1 2022-23 a Chwarter 4 2022-23, roedd perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio'n gyson islaw cyfartaledd Cymru ar gyfer canran y ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn graddfeydd amser statudol a chytunedig. Yn Chwarter 1 2023-24, fe wellodd perfformiad y gwasanaeth, er ei fod wedi aros islaw cyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, yn Chwarter 2 2023-24, fe wellodd perfformiad y Cyngor nes ei fod uwchlaw cyfartaledd Cymru.

27 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n priodoli'r gwelliant hwn mewn perfformiad i dynhau ei reolaethau trwy amlygu pwysigrwydd cytuno ar estyniadau amser gydag ymgeiswyr cynllunio. Mae hyn yn caniatáu mwy o amser i swyddogion benderfynu ceisiadau cynllunio. Mae'r gwelliant hwn wedi cael ei gysylltu ag atgyfnerthu

ymarfer gweithio disgwyliedig a dylai fod yn gynaliadwy er gwaethaf heriau recriwtio staff cyfredol.


**Arddangosyn 4: Amser cyfartalog i benderfynu ceisiadau cynllunio mawr, mewn diwrnodau**




Ffynhonnell: Ffurflenni Chwarterol Rheoli Datblygu Cyngor Dinas Casnewydd i Lywodraeth Cymru

28 Fel y dengys **Arddangosyn 4**, mae'r perfformiad o ran penderfynu ceisiadau cynllunio mawr wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf ond wedi gwella yn 2023-24. Mae'n bwysig nodi y gall amrywiadau o fewn y dangosydd hwn fod i'w priodoli i'r ffaith bod ceisiadau cynllunio mawr fel rheol yn fwy cymhleth. Yn hytrach na gofyn i'r ymgeisydd dynnu'r cynllun yn ôl neu fod swyddogion yn gwrthod, mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag ymgeiswyr i ddatrys materion. Mae'r dull cydweithredol hwn a'r parodrwydd i ymgysylltu'n un rheswm pam fod amseroldeb penderfynu ceisiadau cynllunio mawr yn gallu amrywio.


**Arddangosyn 5: Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod neu lai**




Ffynhonnell: Ffurflenni Chwarterol Rheoli Datblygu Cyngor Dinas Casnewydd i Lywodraeth Cymru

29 Mae Llywodraeth Cymru'n dweud bod 84 diwrnod yn rhesymol i ACLlau ymateb i gwynion. Fel a ddangosir yn **Arddangosyn 5**, mae perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio wedi amrywio o uchafbwynt o 87% o achosion yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod neu lai yn Chwarter 1 2022-23 i 29% yn Chwarter 3 2023-24. Yn ystod y cyfnod hwn, mae swydd wag ar gyfer uwch swyddog gorfodi wedi bod yn wag yn yr hirdymor. I greu datrysiad mwy parhaol a chynaliadwy, mae'r gwasanaeth yn cynnig creu rôl Myfyriwr Cynllunio newydd gyda ffocws ar orfodaeth. Dylai recriwtio'n llwyddiannus i'r rôl hon helpu'r gwasanaeth i wella ei berfformiad gan bod recriwtio'r Myfyrwyr Cynllunio cyfredol wedi helpu'r gwasanaeth i wella amseroldeb penderfynu ceisiadau cynllunio.


**Arddangosyn 6: Amser cyfartalog a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol, mewn diwrnodau**




Ffynhonnell: Ffurflenni Chwarterol Rheoli Datblygu Cyngor Dinas Casnewydd i Lywodraeth Cymru

30 Mae'r ffigyrau yn **Arddangosyn 6** yn nodi na chymerodd y Gwasanaeth Cynllunio unrhyw gamau gorfodi cadarnhaol yn Chwarter 1 2022-23 ac ers Chwarter 4 2022-23. Mae hyn yn anghywir. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn cymryd camau gorfodi cadarnhaol, ond nid oedd hyn wedi cael ei gofnodi'n gywir ar system TG y gwasanaeth ac, felly, nid adroddwyd yn gywir ar hynny wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth wedi ymdrin â'r gwall hwn bellach ac mae wrthi'n sefydlu trefniadau i sicrhau bod y gwasanaeth yn cofnodi ac yn adrodd ar berfformiad cywir yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi bod yn adrodd yn anghywir ar ddata sy'n berthnasol i'r dangosydd hwn am flwyddyn.

**Arddangosyn 7: % y penderfyniadau a wnaed gan aelodau yn groes i gyngor swyddogion**




Ffynhonnell: Ffurflenni Chwarterol Rheoli Datblygu Cyngor Dinas Casnewydd i Lywodraeth Cymru, ac Arolygon chwarterol rheoli datblygu (llyw.cymru)

31 Fel y dengys **Arddangosyn 7**, ac eithrio Chwarter 4 2022-23, nid yw'r Pwyllgor Cynllunio'n aml yn gwneud penderfyniadau'n groes i gyngor Swyddogion Cynllunio (er mwyn cyd-destun, mae 25% yn Chwarter 4 2022-23 yn ddau benderfyniad a wnaed gan aelodau yn groes i gyngor swyddogion, o gyfanswm o wyth).

32 Fodd bynnag, adnabuwyd anghysondeb pellach o ran cofnodi ac adrodd ar ddata mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Mae adolygiad o benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio yn 2023 yn dangos bod y pwyllgor wedi gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddogion yn Chwarter 1 2023-24. Ni chofnodwyd hyn yn gywir ac nid adroddwyd yn gywir arno wrth Lywodraeth Cymru. Mae hyn, ochr yn ochr â chofnodi camau gorfodi cadarnhaol ac adrodd arnynt yn anghywir, yn codi pryderon ynghylch cywirdeb data ar berfformiad y Gwasanaeth Cynllunio a chadernid y trefniadau sicrhau ansawdd cysylltiedig.

## Er bod peth gweithgarwch i adrodd ar berfformiad y Gwasanaeth Cynllunio, mae'r gwasanaeth wedi adnabod cyfleoedd i wella'i drefniadau adrodd ar berfformiad

33 Ar hyn o bryd, mae'r aelodau'n cael nifer o adroddiadau trwy gydol y flwyddyn, sy'n rhoi cyfle iddynt ddeall a herio agweddau ar berfformiad y Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys yr adroddiadau perfformiad canol blwyddyn a diwedd blwyddyn ar y cynllun gwasanaeth Adfywio a Datblygu Economaidd i'r pwyllgor craffu perthnasol, adroddiad hunanasesu blynyddol y Cyngor 2022-23, a

hunanasesiad canol blwyddyn y Cyngor 2023-24. Fodd bynnag, dim ond cwpl o fesurau perfformiad sy'n ymwneud â Chynllunio y mae'r adroddiadau hyn yn eu cynnwys felly dim ond cipolwg ar berfformiad y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Nid yw'r mesurau perfformiad cyfyngedig yr adroddir wrth aelodau arnynt yn cyfleu hyd a lled gwaith y Gwasanaeth Cynllunio.

34 Daeth gofyniad Llywodraeth Cymru bod ACLlau yn cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Gwasanaethau Cynllunio i ben yn ystod y pandemig. O ganlyniad, nid oes adroddiad ar ei ben ei hun sy'n dwyn holl berfformiad, llwyddiannau a heriau'r Gwasanaeth Cynllunio ynghyd mewn un lle i'w hadolygu. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n gweld gwerth mewn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n amlinellu ei weithgarwch. Gallai adfer adroddiad blynyddol ar berfformiad helpu i lenwi'r bwlch sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran monitro perfformiad y gwasanaeth cyfan a galluogi swyddogion Cynllunio ac aelodau i gael dealltwriaeth fwy trylwyr am berfformiad y gwasanaeth. Byddai hefyd yn hwyluso gwaith i graffu ar berfformiad y gwasanaeth a'i herio.

## Mae Aelodau'n deall eu rôl a'u cyfrifoldebau; fodd bynnag, ceir anghysonderau rhwng Cod Ymarfer y Pwyllgor Cynllunio a chyfansoddiad y Cyngor a cheir rhai bylchau yng ngweithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio

35 Mae gan y Cyngor God Ymarfer ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio sydd ar gael yn gyhoeddus ac sy'n darparu disgrifiad eglur o rôl, trefniadau gweithdrefnol a disgwyliadau ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio. Hefyd, mae gan y Cyngor gynllun dirprwyo eglur ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio a'r Pwyllgor Cynllunio sydd wedi'i gynnwys yn ei gyfansoddiad. Mae adolygiad o'r holl geisiadau cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio yn 2023 yn dangos bod y Cyngor yn ymlynu wrth ei gynllun dirprwyo.

36 Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n dangos parch at broses y Pwyllgor Cynllunio ac mae swyddogion cyfreithiol a chynllunio'n rhoi cymorth da yng nghyfarfodydd y pwyllgor a'r tu allan i drafodion y pwyllgor.

37 Cafodd y Pwyllgor Cynllunio sesiwn sefydlu gynhwysfawr dros ddiwrnod llawn a ddarparwyd gan Cymorth Cynllunio Cymru yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022. Cafodd aelodau newydd a ymunodd â'r Pwyllgor Cynllunio yn 2023 hyfforddiant cynhwysfawr hefyd. Mae swyddogion yn hawdd mynd atynt os yw aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n teimlo bod arnynt angen hyfforddiant pellach neu sesiynau briffio i ategu eu sesiwn sefydlu. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i gefnogi aelodau ei Bwyllgor Cynllunio.

38 Gall aelodau nad ydynt yn eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio alw ceisiadau cynllunio i mewn er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu arnynt a bod yn bresennol yn y Pwyllgor Cynllunio. Fodd bynnag, nid yw'r aelodau nad ydynt yn eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio wedi cael unrhyw hyfforddiant ar weithdrefnau'r Pwyllgor Cynllunio na materion cynllunio i'w cynorthwyo i wneud hyn. Ni all y Cyngor fod wedi'i sicrhau bod gan yr holl Aelodau ddigon o ddealltwriaeth am faterion cynllunio yn unol â'u rôl a'u cyfrifoldebau.

39 Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n deall risgiau gwneud penderfyniad yn y Pwyllgor Cynllunio, sy'n groes i argymhellion Swyddogion Cynllunio. Mae'r pwyllgor yn cael canlyniadau apeliadau'n rheolaidd ac mae wedi cael hyfforddiant penodol ar Dai Amlfeddiannaeth gan bod y pwyllgor wedi gwrthod ychydig o geisiadau am Dai Amlfeddiannaeth yn flaenorol a hynny wedi arwain at apeliadau. Mae gan y Cyngor hefyd drefniant i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio fod yn rhan o apeliadau i amddiffyn penderfyniad y pwyllgor. Er y gall Pwyllgorau Cynllunio benderfynu ceisiadau cynllunio'n groes i gyngor Swyddogion Cynllunio, mae'r pwyllgor yn ymwybodol o risgiau posibl gwneud hynny a bydd yn ystyried y rhain wrth wneud ei benderfyniadau terfynol. Mae hyn yn amlwg yn **Arddangosyn 7** sy'n gyffredinol yn dangos lefel isel o benderfyniadau a wnaed yn groes i gyngor Swyddogion pan fo hynny'n cael ei gymryd fel cyfartaledd dros y 18 mis diwethaf.

40 Ar y cyfan, canfuom fod aelodau'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chynllunio, ond bod eglurder y rhain yn cael ei danseilio gan rai anghysonderau ac anghywirdebau mewn rhai dogfennau allweddol, a allai greu dryswch ynghylch trefniadau'r Cyngor:

a. fe wnaeth y Cyngor ddiweddaru'r Cod Ymarfer tuag at ddiwedd 2022; fodd bynnag, mae'n dal i gyfeirio at Ddeddf Diogelu Data 1998 yn hytrach na Deddf Diogelu Data 2018.

b. nid yw cyfansoddiad y Cyngor yn rhoi adlewyrchiad cywir o God Ymarfer cyfredol y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r cyfansoddiad yn cyfeirio at is-bwyllgor Safle Cynllunio; fodd bynnag, nid yw'r Cod Ymarfer a ddiweddarwyd yn 2022 yn cyfeirio at yr is-bwyllgor hwn.

c. ymddengys fod teitlau swyddi swyddogion a gwasanaethau'r Cyngor yn y cyfansoddiad wedi dyddio pan gyfeirir at y Gwasanaeth Cynllunio a'r Pwyllgor Cynllunio.

41 Mae Cod Ymarfer y Pwyllgor Cynllunio'n pennu terfynau amser penodol i ymgeiswyr cynllunio, eu cefnogwyr, ac unrhyw wrthwynebwyr annerch y Pwyllgor Cynllunio. Nid yw'r Cyngor yn pennu terfyn amser ar gyfer aelodau o wardiau lleol sy'n dymuno siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio. Ceir risg, felly, y gall aelodau o wardiau lleol gael mwy o gyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio. Gellid ymdrin â hyn pe bai'r Cod Ymarfer yn rhoi terfyn amser i aelodau o wardiau lleol sydd hefyd yn dymuno gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

42 Nid yw Cod Ymarfer y Pwyllgor Cynllunio'n diffinio dyletswyddau aelod o'r Pwyllgor Cynllunio wrth annerch y Pwyllgor yn eu cymhwyster fel Aelod o Ward Leol sydd wedi galw cais cynllunio i mewn i'r pwyllgor. Mae hyn hefyd yn cynnwys eglurder ynghylch eu hawliau pleidleisio wedi hynny. Trwy beidio ag egluro'r trefniadau hyn, ceir risg o wrthdaro buddiannau a rhagderfynu ceisiadau cynllunio. Byddai cryfhau'r canllawiau hyn yn diogelu'r Cyngor a'i Aelodau ymhellach.

# Atodiad 1

## Cwestiynau'r archwiliad a'r meini prawf archwilio

Isod ceir y cwestiynau yr oeddem yn ceisio eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein canfyddiadau.

Prif gwestiwn yr archwiliad: **A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau priodol i gyflawni gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

**Arddangosyn 8: cwestiynau'r archwiliad a'r meini prawf archwilio**

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio |
| --- | --- |
| 1. A yw'r gwasanaeth cynllunio'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant? | • Mae Uwch Swyddogion ac Aelodau'n deall rôl y Gwasanaeth Cynllunio fel un o'r galluogwyr allweddol i roi cymorth i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor a gellir dangos hyn.<br>• Mae uwch swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio'n aelodau o grwpiau corfforaethol/strategol i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhan o ddatblygiadau corfforaethol.<br>• Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi'i gysylltu'n dda â gwasanaethau eraill y Cyngor sy'n rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â materion cynllunio.<br>• Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn ddogfen berthnasol y mae'r rhai sy'n ymwneud â phenderfyniadau cynllunio yn y Cyngor yn ymlynu wrthi ac yn ei deall.<br>• Mae gan y Cyngor gyfeiriad eglur ar gyfer gorfodaeth gynllunio gydag adnoddau wedi'u halinio i gyflawni dewis fwriad y Cyngor.<br>• Darperir adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio gan gynnwys Polisi Cynllunio i alluogi'r gwasanaeth i roi cymorth i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| 2. A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau i gyflawni ei amcanion? | • Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio gynllun busnes (neu ddogfen gyfatebol) gydag amcanion ar gyfer y gwasanaeth sy’n cyd-fynd ag amcanion llesiant y Cyngor y mae’r rhai sy’n ymwneud â’r Gwasanaeth Cynllunio yn eu deall.<br>• Mae’r Gwasanaeth Cynllunio wedi nodi sut y bydd adnoddau’n cael eu darparu ar gyfer cynllun busnes y gwasanaeth dros y tymor canolig a hwy hyd y bo’n ymarferol (e.e. cynlluniau i gefnogi datblygiadau megis Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a’r CDLl Newydd a.y.b.).<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio fesurau perfformiad gan gynnwys data sylfaenol, targedau a cherrig milltir sy’n adlewyrchu cynnydd fel y bo’n briodol, y mae swyddogion cynllunio yn eu deall.<br>• Mae’r Cyngor yn deall y rhesymau dros berfformiad ei Wasanaeth Cynllunio ac yn gweithredu i reoli’r perfformiad.<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau cyfathrebu mewnol effeithiol gan gynnwys cyfarfodydd tîm rheolaidd o fewn y gwasanaeth.<br>• Ceir diwylliant cefnogol i ymdrin ag unrhyw wahaniaethau mewn barn broffesiynol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio ac achosion gorfodaeth gynllunio.<br>• Ceir perthnasoedd gweithio cadarnhaol ag ymgyngoreion (statudol a mewnol).<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio system gynllunio (TG) sydd o gymorth i ddarparu’r gwasanaeth. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio |
|---|---|
| 3. A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir yr ymlynir wrthynt? | • Ceir amodau gorchwyl eglur ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio.<br>• Mae gan y Cyngor brotocol pwyllgor cynllunio (neu ddogfen gyfatebol) sy'n cynnwys cod ymarfer a threfniadau gweithdrefnol y pwyllgor cynllunio y mae swyddogion ac aelodau'n eu deall ac yn ymlynu wrthynt.<br>• Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a staff cynllunio'n cael hyfforddiant a chymorth priodol i ddeall amcanion y gwasanaeth, polisïau cynllunio, rôl aelod o'r pwyllgor a threfniadau gweithdrefnol y pwyllgor cynllunio, ac mae hyn yn cael ei ddiweddaru pan fo angen.<br>• Mae'r Cyngor yn rhoi arweiniad i aelodau nad ydynt yn eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio ynghylch polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol a threfniadau gweithdrefnol y pwyllgor.<br>• Mae gan y Cyngor gynllun dirprwyo eglur a thryloyw yr ymlynir wrtho.<br>• Mae gan y gwasanaeth cynllunio brosesau eglur a thryloyw ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio.<br>• Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n adnabod risgiau a chyfleoedd yn glir ac mae'n nodi rhesymeg glir ar gyfer unrhyw benderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio a wneir yn groes i gyngor swyddogion proffesiynol, ac mae hyn yn cael ei gofnodi. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf Archwilio |
| --- | --- |
| 4. A yw'r Gwasanaeth Cynllunio'n adolygu ac yn monitro effeithiolrwydd ei drefniadau? | • Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n dangos sut y mae'n cynnwys staff a phartneriaid allweddol wrth ddylunio'r modd y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu yn y dyfodol.<br>• Mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n defnyddio cwynion a chanmoliaeth (yn rhai mewnol ac allanol) i wella.<br>• Ceir diwylliant cefnogol o ddysgu a datblygu ar gyfer staff cynllunio ac Aelodau a hwnnw'n cael ei adolygu'n rheolaidd.<br>• Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio a'r Pwyllgor Cynllunio ddiwylliant o ddatblygu'n barhaus ac maent yn cymryd sylw o arfer gorau o Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill.<br>• Gall y Gwasanaeth Cynllunio ddangos ei fod yn gweithio gyda gwasanaethau cymorth fel y gwasanaethau cyfreithiol i adolygu a monitro ei drefniadau a'i ddull o weithredu.<br>• Ceir trefniadau i'r Gwasanaeth Cynllunio adrodd ar ei berfformiad yn erbyn ei amcanion ac amcanion llesiant y Cyngor wrth uwch reolwyr ac aelodau. |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.